Dydd Gŵyl Dewi Sant

Cysyniadau: **Cydweithio, cryfder, ffyddlondeb, gofal, gwaith tîm.**

Amcan: **Trafod cefndir ein nawddsant a dehongli ei nodweddion.**

Cyfarpar: **Baneri'r chwe gwlad a baner Dewi Sant.**

Cyflwyniad:

● Yn ystod mis Chwefror mae cystadleuaeth Rygbi'r Chwe Gwlad yn digwydd. Pa wledydd sy'n ymryson? (Cymru, Lloegr, yr Alban, Iwerddon, Ffrainc a'r Eidal) Os yn bosib arddangos baneri'r gwledydd hyn ynghyd â baner Dewi Sant (cefndir du a chroes felen). Trafod gyda'r plant beth oedd y canlyniadau. Efallai bod rhai gemau i'w chwarae yn ystod mis Mawrth. Sut hwyl oedd Cymru wedi'i gael?

● Heddiw, Mawrth 1, rydym yn dathlu gŵyl nawddsant neu brif sant Cymru, Dewi.

● Mynd yn ôl at y tîm rygbi cenedlaethol. Er mwyn chwarae'n dda mae'n rhaid ymarfer yn gyson. Mae hyn yn wir am bob chwaraeon – pêl-droed, pêl-rwyd, hoci, beth bynnag fo'r gêm. Ymarfer cyson – nid unwaith bob hyn a hyn. Mae'n rhaid hefyd ymarfer fel tîm, nid digon yw ymarfer fel unigolyn. Rwy'n siŵr y bydd y plant yn barod iawn i ddangos y gwahanol fath o ymarferion a sgiliau.

Pwy oedd Dewi?

Dyma rai ffeithiau amdano:

● Ychydig iawn a wyddom amdano ond mae nifer o chwedlau wedi codi o'i gwmpas.

● Mae'n rhaid i ni fynd yn ôl i'r chweched ganrif. Mae cryn ansicrwydd ynglŷn â'i hanes cynnar. Dywedir iddo gael ei eni yn Henfynyw yng Ngheredigion oddeutu'r flwyddyn OC 500 yn fab i Sant ei dad a Non ei fam.

● Pan gafodd Dewi ei eni fe ddaeth storm fawr a thrawodd un o'r mellt garreg enfawr oedd wrth ymyl Non. Neidiodd un darn o'r garreg i'r awyr a syrthio wrth draed ei fam. Roedd hyn yn arwydd pendant fod rhywun arbennig wedi cael ei eni. Pan gafodd ei fedyddio fe gododd ffynnon yn y fan a'r lle ac roedd yr offeiriad oedd yn cario Dewi'n fabi bach yn ddyn dall. Ar ôl bedyddio Dewi fe olchodd ei wyneb â dŵr y bedydd a chafodd ei olwg yn ôl.

● Pan oedd Dewi'n ddisgybl fe ofynnodd ei athro iddo, 'Dewi, fel rwyt ti'n gwybod, rydw i'n ddall. Dydw i ddim yn gweld dim. Rho dy ddwylo ar fy llygaid.' Rhoddodd Dewi ei ddwy law ar lygaid Peulin, ei athro. Yn sydyn, roedd Peulin yn gweld unwaith eto.

● Rhoddodd Boia dir i Dewi i godi mynachlog arno. Bywyd anodd oedd bywyd yn y fynachlog. Byddai Dewi a'r mynaich eraill yn gweithio'n galed bob dydd. Roedden nhw hefyd yn gweddïo'n gyson ac yn darllen y Beibl.

● Roedd y bwyd yn syml iawn. Bara, dŵr, llysiau (oedd y mynaich yn eu tyfu eu hunain) a physgod o'r môr – dyna i gyd. Roedd dillad y mynaich yn syml hefyd. Dillad o grwyn anifeiliaid, heb ddim ar eu pennau na'u traed.

● Gelwid Dewi yn Ddewi Ddyfrwr. Efallai fod tri rheswm am hyn:
Roedd wedi agor llawer o ffynhonnau drwy'r wlad.
Dim ond dŵr oedd o'n yfed.
Byddai'r mynaich yn arfer sefyll am gyfnodau hir mewn dŵr oer.

Trafodaeth bellach:

- Beth, yn eich barn chi, oedd yn cynnal Dewi a'r mynaich eraill?

- Un peth pwysig i'w gofio yw mai cydweithio fel tîm oedd y mynaich.

- Hefyd roedden nhw'n ymarfer yn galed. Ymarfer eu cyrff trwy weithio ar y tir. Ymarfer eu bywyd ysbrydol trwy weddïo a darllen y Beibl. Dau ymarfer pwysig. Ymarfer y corff ac ymarfer y meddwl.

Emyn: Ein Nawddsant Ni: Mwy o Glap a Chân 67

Dyfyniad o'r Beibl:

Canwn fawl, yn awr, i wŷr o fri, ie, i'n cyndadau, a'n cenhedlodd ni.
Ecclesiasticus 44:1 Yr Apocryffa BCND

Munud i feddwl:

Y gwahaniaeth rhwng ennill a cholli, llwyddiant a methiant, ydi tîm da.

Myfyrdod/Gweddi:

Diolch i ti, O Dduw, am bobl dda a gweithgar fel Dewi Sant. Diolch am gydweithio a hynny er mwyn helpu pobl eraill. Un felly oedd dy fab, Iesu Grist. O Dduw, gwna ni fel Iesu Grist. Diolch. Amen.